# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 17 Ionawr 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505 / 029 2089 8600
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1) Sesiwn dystiolaeth 2: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru (9:30 - 10:45)** (Tudalennau 1 - 11)

- Owen Watkin, Cadeirydd
- Steve Halsall, Dirprwy Ysgrifennydd

**3. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1) Sesiwn dystiolaeth 2: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr (ACSeS) (10:45 - 12:00)** (Tudalennau 12 - 25)

- Daniel Hurford, CLlLC, Pennaeth Polisi, Gwella a Llywodraethu
- Dilys Phillips, ACSeS, Swyddog Monitro, Gwynedd
- Phillip Johnson, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol, Casnewydd

**4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (12:00 - 12:05)**
Eitem 5

**5. Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau - ystyried yr**

**adroddiad drafft (12:05 - 12:10)**

## 6. Papurau i'w nodi (Tudalennau 26 - 27)

**Ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru - Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ** (Tudalennau 28 - 29)

**At: y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Ymateb Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)**

**Cyflwyniad**

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) yn croesawu'r cyfle hwn i gynnig sylwadau ar y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sydd wedi'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Noda'r Comisiwn fod y trefniadau a'r gweithdrefnau presennol sy'n effeithio ar y Comisiwn wedi'u deddfu ddeugain mlynedd yn ôl. Mae'n derbyn bod y sylfeini sylfaenol ar gyfer arolygu'r trefniadau etholiadol yn eu lle; mae o'r farn fod y mesur yn fodd i wella a moderneiddio'r ffyrdd y bydd y Comisiwn a'i bartneriaid yn gweithredu yn y dyfodol, fel bod y gwaith o arolygu'r trefniadau hynny'n cael ei wneud yn fwy effeithiol ac effeithlon er budd llywodraeth leol gadarn a democratiaeth leol. Rydym yn cydnabod gwerth a dilysrwydd yr argymhellion a wnaed gan Mr Glyn Mathias yn ei Adroddiad yn 2011 ac yn gyffredinol fe wnaethom dderbyn y cynigion hynny yn ein hymateb cynharach i'r Gweinidog. Roedd y Comisiwn wedi cyflwyno sylwadau manwl ar y Papur Gwyn, ac mae'n falch o weld fod y Bil wedi mynd i'r afael â nifer o'i bryderon. Prin yw'r cyfle sy'n codi i gorff fel y Comisiwn allu cynnig sylwadau a dylanwadu ar y ddeddfwriaeth sy'n pennu ein bodolaeth ac sy'n diffinio ein ffordd o weithredu, ac rydym o'r farn fod y Bil yn gyfle unigryw i gyflwyno gwelliannau. Dymunwn felly wneud sylwadau pellach er mwyn helpu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lunio darn o ddeddfwriaeth sy'n gadarn ac yn addas i'r diben.

Er mwyn cynorthwyo'r broses o gasglu a dadansoddi pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil, rydym wedi defnyddio holiadur yr ymgynghoriad fel templed ar gyfer ein hymateb.

**Ymateb**

**C1 A oes angen Bil i wneud newidiadau i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") ac i wneud amrywiol ddarpariaethau mewn perthynas â llywodraeth leol?**

Oes. Mae'r Comisiwn yn cytuno'n gyffredinol â chanfyddiadau adroddiad Mathias mewn perthynas â newidiadau sydd eu hangen i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Comisiwn. O ystyried ehangder y newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn, cytunir y cyflawnir hyn yn fwy effeithiol gan Fil newydd yn hytrach na thrwy wneud mân newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol.

**C2 A ydych o'r farn y bydd y Bil yn gwella'r dull o gyflawni rolau a swyddogaethau statudol y Comisiwn? (paragraff 3.1 o'r memorandwm esboniadol)**

Ydyn, mewn nifer o ffyrdd. Er hynny mae rhai darpariaethau o'r Bil yr ydym o'r farn y byddent, o'u gadael heb eu newid, yn cael effaith niweidiol ar allu'r Comisiwn i ymgymryd â'i rolau a'i swyddogaethau statudol. Mae ein prif feysydd pryder fel a ganlyn:

Y ddarpariaeth (Adran 26 (3) (b)) i'r Comisiwn ystyried newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol y prif gyngor wrth arolygu ffiniau cymunedol;

Y ddarpariaeth (Adran 29 (7)) lle mae'n rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal arolwg na chyhoeddi cynigion trefniadau etholiadol yn unrhyw gyfnod o 9 mis o etholiad;

Y gofyniad (Adran 30 (2) (a)) i'r Comisiwn ystyried unrhyw anghysondeb rhwng nifer y rhai ar y gofrestr etholiadol a'r nifer sydd yn gymwys i bleidleisio.

Mae ystyriaeth fanwl o bob un o'r materion hyn yn cael ei rhoi yn ein hymatebion i'r cwestiynau isod.

Rydym o'r farn fod darpariaethau'r Bil yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r pwysigrwydd o gyflawni ffiniau cymunedau a threfniadau etholiadol priodol cyn cynnal arolwg o drefniadau etholiadol prif ardal. Ym marn y Comisiwn, fodd bynnag, nid yw'n mynd yn ddigon pell i sefydlu perthynas benodol rhwng arolygon cymunedol ac arolygon etholiadol prif ardal. Hoffem weld trefniadau lle mae gofyniad ar brif gynghorau i fod wedi cynnal arolwg cymunedol o fewn pum mlynedd i arolwg etholiadol prif ardal fel a bennir yn rhaglen 10 mlynedd y Comisiwn, a gofyniad iddynt adrodd i'r Comisiwn nid llai nag 1 flwyddyn cyn dyddiad cychwyn arolwg etholiadol. Byddai hyn yn rhoi un system integredig ar gyfer arolygon cymunedol ac arolygon prif gynghorau. Byddai pob un o'r rhanddeiliaid yn deall yn glir pa bryd mae arolygon i'w cynnal, a byddai'n galluogi ymgysylltu mwy â'r broses.

Rydym yn cydnabod y byddai angen cyfnod trosiannol ar gyfer y ddarpariaeth hon fel ei bod yn clymu i mewn â rhaglen gyntaf 10 mlynedd y Comisiwn, naill ai drwy roi gollyngiad i'r awdurdodau hynny yn hanner gyntaf y rhaglen neu drwy fod y Comisiwn yn rhoi dechrau dwys i'r rhaglen gydag awdurdodau sydd wedi cynnal arolygon cymunedol yn fwyaf diweddar (os oes modd).

**C3 A ydych chi o'r farn bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Comisiwn yn briodol? (Rhan 2 y Bil)**

Ydyn, yn gyffredinol. Byddem, fodd bynnag, yn dymuno gwneud y sylwadau a'r awgrymiadau canlynol:

**Adran 2 - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

O ran statws y Comisiwn, cynigiwn sylw mewn perthynas ag Adran 3, isod. O ran Adran 2(1), awgrymir bod y geiriau "Mae'r corff corfforaethol a enwir yn" yn cael eu dileu ac y dylai'r adran ddechrau gyda "Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol…".

O ran Adran 2(2), mae'r Comisiwn yn derbyn yr enw arfaethedig.

Rydym wedi ystyried y gost ychwanegol un tro'n unig a fyddai i'w thalu o ganlyniad i'r newid enw, ac rydym o'r farn na fydd hyn yn fwy na £5,000 ac y bydd cyllideb y Comisiwn yn ei thalu fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

**Adran 3 – Statws**

Awgrymir y gellir gwneud y drafft o'r darpariaethau mewn perthynas â statws y Comisiwn yn fwy eglur. Mae cynnig wedi'i wneud uchod ar gyfer diwygio Adran 2.
Awgrymir, o ganlyniad, y dylid cyflwyno darpariaeth ychwanegol fel Adran 3(1):-
*"Bydd y Comisiwn yn gorff corfforaethol, yn cynnwys cadeirydd, dirprwy gadeirydd ac ni fydd yn cynnwys mwy na phedwar aelod yn gyffredinol".*
Caiff y ddwy isadran nesaf eu hail-rifo o ganlyniad i hyn.

Mae'r diwygiad i'r Bil drafft yn ailddeddfu i bob pwrpas y ddarpariaeth a geir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 8 (1) (1); yn yr achos penodol hwn, ni welir unrhyw fantais dros y ddarpariaeth wreiddiol yng ngeiriad arfaethedig Adran 2(1). Byddai diddymu'r darpariaethau'n ymwneud â statws y Comisiwn nawr yn Neddf 1972 yn creu ansicrwydd pe bai Adran 2(1) fel y'i drafftiwyd yn aros.

Mae'r diwygiad hefyd am ddileu amwyster a geir yn Adran 4(1)(a), yr ymdrinnir ag ef isod. Mae'r mater yn ymwneud â nifer yr aelodau'n cael ei ystyried o dan Adran 4.

**Adran 4 - Aelodaeth**

Mae'r amwyster y cyfeirir ato yn Adran 3 yn ymwneud â'r ymadrodd "aelod cadeirio" a geir yn Adran 4(1)(a). Mae'r Cytundeb Fframwaith rhwng y Gweinidog a'r Comisiwn yn pennu cyfrifoldebau ffurfiol ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn a'r aelodau yn y drefn honno. Mae gan y Cadeirydd atebolrwyddau sy'n wahanol i rai'r aelodau. Mae'r ymadrodd yn amwys ac nid yw'n cydnabod goblygiad dyletswyddau'r Cadeirydd. Awgrymir, fel sy'n arferol, y dylai'r geiriad fod fel y pennir uchod, mewn perthynas ag Adran 3(1).

Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad presennol y dylai o leiaf un aelod fod yn siaradwr Cymraeg. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd aelodau'r Comisiwn, yn lle hynny, yn cael eu penodi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a Safonau Iaith Gymraeg yn y dyfodol yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn wedi gwella'i arferion drwy benodi Comisiynwyr Arweiniol, sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag arolygon unigol, ac mae'n dymuno ymgysylltu a chyfathrebu mewn ffyrdd gwell â'r cyhoedd a'i bartneriaid allweddol. Fel rhan o'r dull gweithredu newydd hwn byddai'r Comisiwn yn cael ei gryfhau drwy benodi aelod â sgiliau iaith. Mae'r Comisiwn o'r farn, yn unol â hynny, y dylid cyfeirio'n benodol yn Adran 4(2) at benodi aelodau mewn perthynas â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

**Adran 6 – Trafodion**

Deellir y gellid ystyried ei bod yn amhriodol i benderfyniadau sy'n effeithio ar broses cynnal arolygon neu reolaeth y Comisiwn gael eu gwneud gan ddau aelod yn unig, a thrwy gynyddu'r cworwm o 2 i 3, a thrwy ddarparu'r opsiwn i benodi aelodau ychwanegol byddai'r risg hon yn cael ei dileu. Rydym o'r farn, fodd bynnag, y byddai cynyddu'r cworwm ynghyd â'r trefniant presennol o 3 aelod, yn cynyddu'r risg y bydd diffyg cworwm mewn cyfarfodydd. Byddai cynyddu'r aelodaeth i 4 neu 5 aelod yn lleihau'r risg hon, ond byddai'n cynyddu cost rhedeg y Comisiwn. Rydym o'r farn, er mwyn sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd ac i osgoi mynd i gostau ychwanegol, y

dylai'r cworwm aros yn 2. Rydym o'r farn mai 3 ddylai aelodaeth arferol y Comisiwn fod (gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy) ond cytunwn, er mwyn cyflenwi yn ystod unrhyw absenoldeb hirdymor, y dylid cadw darpariaeth ar gyfer penodi aelodau ychwanegol.

**Adran 8 - Prif Weithredwr**

Cytunir bod dynodiad prif swyddog y Comisiwn yn cael ei newid o Ysgrifennydd i Brif Weithredwr. Byddai'n well gan y Comisiwn pe bai'r holl benodiadau i'w staff yn cael eu gwneud gan y Comisiwn, fodd bynnag, cydnabyddir yn achos y prif weithredwr, a all fod yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn, yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru, bod cyfiawnhad i'r penodiad gael ei wneud yn enw'r Gweinidog. Mae'r Comisiwn yn croesawu'r ddarpariaeth yn adran 8(3) yr ymgynghorir ag ef cyn gwneud penodiad, a gobeithir y byddai'r Comisiwn yn anhepgor i'r broses sy'n arwain at y penodiad.

**Adran 9 – Staff eraill**

Er budd cysylltiadau staff, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylid gwneud datganiad, naill ai yn y Bil, neu drwy lythyr yn enw'r Gweinidog, i'r perwyl nad yw pasio'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar hawliau cyflogaeth y staff presennol. Gan y bydd rhaid i unrhyw benodiadau staff gael eu hariannu o'r gyllideb flynyddol a gytunir gyda Llywodraeth Cymru, nid yw adran 9(3) yn angenrheidiol a gellir ei dileu.

**Adran 10 - Arbenigwyr**

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn benodi (a thalu) unigolion i ddarparu cyngor arbenigol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatau i Lywodraeth Cymru benodi unigolion i ddarparu cyngor arbenigol. Mae'r Bil drafft yn dirprwyo'r pŵer hwn i'r Comisiwn. Mae dogfen Fframwaith y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru'n darparu'r trefniadau diogelu angenrheidiol ar gyfer sicrhau Llywodraeth Cymru y byddai'r pŵer dirprwyedig hwn yn cael ei reoli'n briodol. Awgrymir felly nad yw Adrannau 10 (2) a 10 (5) yn angenrheidiol.

**Adran 14 - Cyfarwyddiadau**

Awgrymwn fod y ddarpariaeth gyfwerth ag a geir yn Adran 48(8) sydd wedi'i chyfyngu i Ran 3 yn unig o'r Bil, yn cael ei chynnwys gydag effaith debyg mewn perthynas â Rhan 2. Geiriad awgrymedig y ddarpariaeth fyddai

> "*Adran 14(2) Ond, cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas â'r Rhan hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.*"

**Adran 18 - Pwyllgor Archwilio: aelodaeth**

Mae Adran 18 (1) (a) yn mynnu penodi aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer gwneud y penodiad. Awgrymir y canlynol fel ychwanegiad at yr adran:

"*Adran 18 (3) Gall y Comisiwn benodi unigolyn i fod yn aelod lleyg o'r pwyllgor archwilio.*"

Byddai'r Comisiwn yn gwneud y penodiad ar sail profiad ac arbenigedd perthnasol, a chan ddilyn gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus.

(Byddai is-gymalau'n cael eu hail-rifo o ganlyniad i hyn.)

**C4 Ydych chi o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer arolygon llywodraeth leol yn briodol (Pennod 4 a 5)**

Ydyn, yn gyffredinol. Byddem, fodd bynnag, yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol, ac ystyriwn ei bod yn briodol yma i gynnig sylwadau ar y darpariaethau ym Mhenodau 2 a 3 sydd hefyd yn ystyried darpariaethau ar gyfer arolygon llywodraeth leol.

**PENNOD 2**

**Adran 26 - Arolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn**

Mae'r ddarpariaeth yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth bresennol i'r Comisiwn ystyried newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol prif gyngor wrth arolygu ffiniau cymunedol, ac mae'n hanfodol ar gyfer tacluso ffiniau adrannau etholiadol. Mae angen ychwanegu'r ddarpariaeth at 26.3(b). Os na chaiff ei hychwanegu, yna bydd gweithredu newidiadau ffiniau cymunedol yn arwain at anghysondebau rhwng ffiniau cymunedol a ffiniau adrannau etholiadol na fyddant yn cael eu datrys nes bod arolwg etholiadol o'r brif ardal wedi'i gynnal a'i roi ar waith.

**PENNOD 3**

**Adran 29 - Arolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal**

Ystyrir y gallai teitl yr adran hon ddarllen yn well fel '*Arolygu trefniadau etholiadol prif ardal*'.

Mae'r Comisiwn o'r farn, o ystyried ei amserlen waith bresennol, y byddai dyddiad cychwyn cynharach nag 1 Mai 2014 yn fuddiol. Ystyriwn fod Medi 2013 (neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol) yn ddyddiad cychwyn priodol ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd.

Nid yw'r Comisiwn yn cytuno â darpariaethau Adran 29 (7) gan y bydd hyn yn cyfyngu'r amserlen. I bob pwrpas, byddai'r ddarpariaeth yn golygu na fydd unrhyw adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod o Awst 2016 i Fai 2017, ac ar gyfer etholiadau dilynol. Gallai hyn olygu bod arolygon sydd ar waith yn cael eu hatal am 9 mis. Er mwyn osgoi hyn, byddai'n rhaid i'r Comisiwn amserlennu'r arolygon fel bod arolygon naill ai wedi'u cwblhau erbyn cychwyn y cyfnod, neu heb eu dechrau nes ar ôl yr etholiad. Cytunir efallai na fydd yn briodol cyhoeddi argymhellion ar ôl dyddiad hysbysiad swyddogol am etholiad. Ystyriwn y byddai'n bosibl paratoi rhaglen o arolygon sy'n bodloni Gweinidogion Cymru heb y cyfyngiad hwn. Byddai dileu'r cyfyngiad hwn yn galluogi'r Comisiwn i sicrhau ffrwd waith gyson dros y cyfnod, a byddai hyn yn cynorthwyo cadw staff a dyrannu cyllideb. Mae Tabl Un yn Atodiad A

yn dangos y rhaglen arolygon gyda'r cyfnod 9 mis, ac mae Tabl Dau yn dangos rhaglen heb y cyfyngiad hwn.

Mae Adran 29 (10) yn diffinio'r derminoleg. Nodir bod yr hyn a ddynodwyd yn flaenorol fel 'adrannau etholiadol' bellach yn 'ardaloedd etholiadol', ac mae 'adrannau etholiadol aml-aelod' bellach yn 'aelod-ardaloedd' lluosog. Ni roddwyd unrhyw esboniad ynghylch pam mae'r derminoleg wedi newid. Mae'r Bil yn cyflwyno newidiadau i derminoleg a wnaed ers tro (ers Deddf 1972) ac mae'r Comisiwn yn pryderu y gallai hyn achosi dryswch, ond nid oes ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor.

**Adran 30 - Ystyriaethau ar gyfer arolwg o drefniadau etholiadol prif ardal**

Mae Adran 30 (2) (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried unrhyw anghysondeb rhwng nifer y rhai ar y gofrestr etholiadol a'r nifer sy'n gymwys i bleidleisio. Mae hyn yn ychwanegu elfen newydd i'r ystyriaeth y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei rhoi wrth gynnal arolygon etholiadol. Awgrymir y byddai'r elfen hon yn galluogi mwy o amrywio yn y gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer yr aelodau, ond nid yw'n glir faint o bwyslais a ddylid rhoi i'r elfen hon a faint o amrywio a ganiateir. Pennwyd y gofyniad hwn hefyd ar arolygon o drefniadau etholiadol cymunedol yn Adran 33. Er bod yr ystadegau ar gyfer nifer yr etholwyr cofrestredig ar gael yn gyson ac i lefel fanylder sy'n ofynnol at ddibenion arolygon, rydym yn pryderu nad yw'r ystadegau ar gyfer nifer y rhai sy'n gymwys i fod yn etholwyr ar gael ar yr un sail. Rydym o'r farn y dylid dileu'r ddarpariaeth yn Adran 30 (2) (a) a'r ddarpariaeth gyfwerth yn Adran 33 (5) o'r Bil.

Os digwydd i'r ddarpariaeth gael ei deddfu, byddai'r Comisiwn o blaid cynnal trafodaethau gyda'r Adran gyda golwg ar ddatblygu arweiniad ar gyfer rhoi'r darpariaethau hyn ar waith. Er mwyn ychwanegu tryloywder a dealltwriaeth, dylid cynnwys cyrff priodol eraill wrth ddrafftio neu wrth ymgynghori ar unrhyw ganllawiau o'r fath.

**Adran 31 - Arolygu trefniadau etholiadol i gymunedau gan brif gyngor**

Ystyrir y gallai teitl yr adran hon ddarllen yn well fel '*Arolygu trefniadau etholiadol cymunedau gan brif gyngor*'.

**Adran - 32 Arolygu trefniadau etholiadol cymuned gan y Comisiwn**

Ystyrir y gallai teitl yr adran hon ddarllen yn well fel '*Arolygu trefniadau etholiadol cymunedau gan y Comisiwn*'.

**PENNOD 4**

**Adran 35 - Ymgynghori ac ymchwilio**

Mae Adran 35 (3) yn gwneud darpariaeth i'r adroddiad cynigion drafft gael ei gyhoeddi'n electronig, ac mae paragraffau pellach yn sôn am 'gopïau' o'r adroddiad.

Efallai yr awgrymir bod y copïau pellach hyn yn gopïau electronig hefyd yn hytrach na rhai papur.  Mae'r un peth yn wir o dan Adran 36 ar gyfer yr adroddiad cynigion terfynol.  Os mai'r bwriad yw i gopïau electronig yn unig gael eu cynhyrchu, yna dylid dweud hyn yn glir ar gyfer pob cyfeiriad at adroddiad.  Er ein bod o'r farn fod manteision cost i'w cael o gynhyrchu copïau electronig o'r adroddiad yn unig, rydym yn pryderu y gallai fod nifer o ymgynghoreion o hyd nad yw'r ddarpariaeth ganddynt i dderbyn gwybodaeth yn y dull hwn.  Byddem yn dymuno, yn y tymor byr, i barhau i ddarparu rhai copïau papur o'n hadroddiadau o leiaf, ond rydym yn gytûn mai symud tuag at gyhoeddi popeth yn electronig y byddem yn dymuno'i wneud yn y pen draw.

**Adran 36 - Adrodd ar yr Arolwg**

Mae Adran 36 (6) (c) yn gwneud y Comisiwn yn awdurdod gweithredu mewn perthynas ag arolygon o dan Adran 25 (Arolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor). O dan y trefniadau presennol, mae arolygon o ffiniau cymunedol yn amlach na pheidio yn mynnu bod newidiadau ôl-ddilynol yn cael eu gwneud i drefniadau etholiadol y brif ardal (er mwyn osgoi anghysondebau rhwng ffiniau cymunedol a ffiniau adrannau etholiadol).  Caiff hyn ei reoli ar hyn o bryd gan y Comisiwn yn gwneud cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol wrth wneud cynigion i Weinidogion Cymru ar ôl ystyried cynigion y cyngor i'r Comisiwn.  Fel y nodwyd uchod (wrth ystyried Adran 26.3(b)), nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr ystyriaeth hon yn y Bil drafft.  Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai fod.  Byddai hyn, fodd bynnag, yn cynnwys goblygiadau i'r Comisiwn fel yr awdurdod gweithredu mewn perthynas ag arolygon ffiniau cymunedol, gan y gall y rhain wneud newidiadau i drefniadau etholiadol prif gyngor.  O dan y ddeddfwriaeth bresennol a'r Bil drafft, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod gweithredu ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol prif gyngor. A fyddai angen i hyn barhau pe bai Adran 26 (3) (b) yn cael ei newid fel y cynigir gan y Comisiwn?

**PENNOD 5**
**GWEITHREDU YN DILYN AROLWG**

Dylai fod darpariaeth i'r awdurdod gweithredu hysbysu awdurdodau lleol yr effeithir arnynt pan gaiff Gorchymyn ei wneud.

**C5 A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:**
- **Dyletswyddau'r Comisiwn**
- **Dyletswyddau prif gynghorau**

**yn briodol? (Pennod 1)**

Ydyn, yn gyffredinol. Byddem yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol, fodd bynnag:

**PENNOD 1**

**Adran 21 - Dyletswydd y Comisiwn i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol**

Mae'r ddarpariaeth o dan Adran 21 (3) sef '…rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus' yn wahanol i'r ddarpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 i'r perwyl fod rhaid iddo 'wneud cynigion ….  weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a

chyfleus'.  Byddai'r datganiad newydd i weld yn awgrymu bod gan y Comisiwn gylch gwaith ehangach nag sydd ganddo (naill ai ar hyn o bryd neu'n dilyn y Bil) ac mae'n mewnosod dyletswydd sy'n mynd ymhellach na'r pwerau a roddwyd i'r Comisiwn gan y Bil. Byddai hyn yn arwain at ansicrwydd ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn. Awgrymir bod geiriad Deddf 1972 yn cael ei ddilyn yma, a bod cyfeiriadau at 'sicrhau' yn cael eu dileu. Mae gofyniad hefyd i brif gynghorau o dan Adran 22(3).

**Adran 22 - Dyletswyddau prif gynghorau mewn perthynas ag ardal**

Dylai testun y teitl yn Adran 22 ddarllen '*Dyletswyddau prif gynghorau mewn perthynas â chymunedau yn eu hardal*'.

**C6 i C9**

**Dim sylwadau**

**C10 Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?**

Fel y nodwyd yn ateb i gwestiwn 4 uchod, nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r Comisiwn ystyried newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol prif gyngor wrth arolygu ffiniau cymunedol.

**C11 Beth yw goblygiadau ariannol y Bil, os ydynt yn bodoli? Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith) sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.**

Mewn perthynas â chostau ychwanegol i'r Comisiwn, rydym yn cytuno â'r asesiadau yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol adran 5 (139(ii)), yn ystyried arbedion cost tebygol o gyhoeddi'r adroddiadau drafft ar ffurf electronig yn unig.  Mae'r Bil drafft, fodd bynnag, yn cynnig bod yr adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi'n electronig hefyd. Os yw ein dehongliad ni o'r Bil yn gywir (gweler uchod) yna'r gofyniad yw i bob copi o'r adroddiadau gael eu darparu fel copïau electronig.  Os felly, yna bydd mwy o arbedion mewn perthynas ag argraffu a dosbarthu. Os mai'r bwriad, fodd bynnag, yw cynhyrchu copïau caled ar gyfer yr ymgynghoreion gorfodol ac eraill, yna ni fydd yr arbedion yn rhai mor sylweddol.

**C12 Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion) (adran 5 y Memorandwm Esboniadol)?**

Noda'r Comisiwn y pwerau arfaethedig i wneud is-ddeddfwriaeth, ac mae'n cytuno â mesurau a fydd yn galluogi gweithredu'n briodol.

**C13 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?**

**Adran 45 - Newid ardal heddlu**

Mae Adran 45 (2) yn rhoi pŵer ychwanegol i'r Comisiwn i argymell newidiadau i ardaloedd heddlu. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn hysbysu'r awdurdodau heddlu a'r Swyddfa Gartref (Uned Diwygio'r Heddlu) am newidiadau arfaethedig i ffiniau prif ardaloedd. Gwaith y Swyddfa Gartref wedyn yw ystyried newidiadau ôl-ddilynol i'r ardaloedd heddlu.

Mae'r ddarpariaeth yn Adran 45 3(b) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach o ffiniau prif ardal ar ôl addasu ffiniau'r ardal heddlu. Mae problem bosibl yn gymaint ag y gall gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ardaloedd heddlu fod yn wahanol i'r gofynion ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Byddai anhawster posibl o ran datrys y gwahaniaethau hyn a allai achosi oedi ac ansicrwydd.

**Adran 50 - Arolygon o gyrff cyhoeddus cymwys**

Yn ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyn, dywedom, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei ddeddfu, y byddem yn croesawu trafodaethau gyda'r Llywodraeth i ddiffinio'n llawn natur y swyddogaeth arfaethedig ac i ddatblygu'r fethodoleg a'r prosesau ar gyfer ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Er bod y Bil drafft yn rhoi ychydig mwy o fanylion, mae'n dal i adael pethau'n agored iawn ac yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau y gall Gweinidogion Cymru benderfynu eu gwneud. Mae'r Comisiwn yn awgrymu ei bod yn ofynnol cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i greu canllawiau a fydd yn galluogi rhoi'r darpariaethau hyn ar waith er budd tryloywder a dealltwriaeth y cyrff yr effeithir arnynt.

## Tabl Un: Rhaglen Arolygon gyda chyfnod 9 mis cyn etholiad

| | 2014 | | | | 2015 | | | | 2016 | | | | 2017 | | | | 2018 | | | | 2019 | | | | 2020 | | | | 2021 | | | | 2022 | | | | 2023 | | | | 2024 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Review Area | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 |
| 1 | | S | | | D | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | | | | | | S | | D | | | | | | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | S | | D | | | | | | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | | | | | | | | S | | | | | | | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | | | | | | | | | S | | | | | | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 11 | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 12 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 13 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 14 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 17 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | |
| 19 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | | | | | | F | | | | | | | | |
| 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | | | | | | F | | | | | | | |
| 21 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | | | | | | | D | | | F | | | | | |
| 22 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | | | | | | D | | | F | | | | | |

August to May

August to May

S - Start of review
D - Draft Proposals
F - Final Proposals

Tudalen 10

**Atodiad A**

## Tabl Dau: Rhaglen Arolygon heb gyfnod 9 mis cyn etholiad (yn dechrau yn 2013)

| | 2013 | | 2014 | | | | 2015 | | | | 2016 | | | | 2017 | | | | 2018 | | | | 2019 | | | | 2020 | | | | 2021 | | | | 2022 | | | | 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 |
| 1 | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | | | | | | | | | | S | | D | | | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | | | | | | | | | | | S | | D | | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | | | | | | | | | | | | S | | D | | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 10 | | | | | | | | | | | | | | S | | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 11 | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 12 | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 13 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 14 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | | | |
| 17 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | | | |
| 18 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | | |
| 19 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | | | | | |
| 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | | | F | | | | | |
| 21 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | D | | | F | | | | | |
| 22 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | | D | | | F | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | E | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | E | | | | | | |

S - Start of review
D - Draft Proposals
F - Final Proposals

Tudalen 11

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Local Government (Democracy) (Wales) Bill

## Consultation Response Form

**Organisation (if applicable):**
Welsh Local Government Association (WLGA)

**Your name:**
Daniel Hurford, Head of Policy

**Email address:**
daniel.hurford@wlga.gvo.uk

**Telephone number:**
029 20468615

**Your address:**
Local Government House, Drake Walk, Cardiff, CF10 4LG

**Introduction:**

The following is a provisional response from the WLGA; WLGA members have not yet had the opportunity to consider the Local Government (Democracy) (Wales) Bill formally and will not be able to do so until its Coordinating Committee meeting of 25th January. Any further comments on the Bill will be submitted to the Communities, Equality and Local Government Committee ahead of the 15th February consultation deadline.

The Welsh Local Government Association (WLGA) represents the interests of local government and promotes local democracy in Wales. It represents the 22 local authorities in Wales and the 3 fire and rescue authorities and 3 national park authorities are associate members.

The WLGA's primary purposes are to promote better local government and its reputation and to support authorities in the development of policies and priorities which will improve public services and democracy.

**The Local Government Boundary Commission**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Question 1: Is there a need for a Bill to make changes to the constitution and functions of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") and to make various provisions relating to local government? | | | |
| Question 2: Do you think the Bill will improve the delivery of the statutory roles and functions of the Commission? (paragraph 3.1 of the explanatory memorandum) | | | |
| Question 3: Do you think the changes being made to the Commission are appropriate? (Part 2 of the Bill) | | | |
| **Yes** | | | |
| The WLGA supports the Welsh Government's commitment to reform and modernize the Local Government Boundary Commission for Wales (the Commission).<br><br>The Bill seeks to implement a number of the recommendations from the Mathias Review which the WLGA welcomed. The WLGA has a constructive ongoing relationship with the recently appointed Commission, however, legislation is required to implement the Mathias recommendations to enhance the capacity, powers and resources of the Commission.<br><br>In its response to the Welsh Government's White Paper, the WLGA was not however convinced of the need to rename the Commission. Although this is not a significant concern, the Commission's role will fundamentally remain around boundary and electoral review matters, a change of name therefore will be inconsistent with the other Local Government Boundary Commissions in the UK and the inclusion of 'Democracy' may cause confusion with the wider remit of the Electoral Commission. | | | |

**Local Government arrangements**

<table>
<tr><td colspan="4">Question 4: Do you think the provisions relating to procedures for local government reviews are appropriate? (Chapter 4 and 5)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Question 5: Do you think the arrangements for local government in relation to:<br>• Duties of the Commission<br>• Duties of a principal council<br>are appropriate? (Chapter 1)</td></tr>
<tr><td>Yes</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Please expand on your answer<br><br>The WLGA supports the Welsh Government’s intention to improve the procedures for undertaking boundary, community and/or electoral reviews. The Bill seeks to implement a number of the recommendations from the Mathias Review.<br><br>The WLGA welcomes and supports the Welsh Government’s clarification through the Bill that, in the electoral review process, community identity and community ties have equal importance to the aim of establishing that each councillor is to represent (as closely as possible) the same number of electors.<br><br>The Bill proposes a number of amendments to clarify, improve and streamline review procedures which are supported. The Welsh Government has also taken on board a number of comments provided during the White Paper consultation, for example the clarification for a route of ‘appeal’ around the Commission’s fees charged on local authorities where it undertakes Community Reviews (see S26 (5)).<br><br>There is a need for further consideration however around the commencement of provisions regarding community reviews. As noted in the Explanatory Memorandum, community reviews are due to be received by the Commission by July 2015 and, given 2013 is a non-election year, some authorities are planning to undertake community reviews shortly. However, the Bill’s Commencement Provisions (S69) state that the parts of the Bill relating to Community Reviews will be commenced 2 months following Royal Assent. There is a concern therefore that community reviews already commenced or concluded (yet not formally implemented or approved) which were undertaken under current guidance and legislation may be affected by the new provisions under the Bill (particularly the issuing of the Commission’s guidance on community reviews). It is therefore suggested that the Bill only applies to Community Reviews which are commenced <u>after</u> the Bill has been introduced.</td></tr>
</table>

Question 6: Do you think the arrangements for local government in relation to:

- Democratic Services Committees (Section 56)
- Audit Committees (Section 57)
- Standards Committees (Section 63)

are appropriate?

| **Yes** | | | |
|---|---|---|---|

Please expand on your answer

- Democratic Services Committee.

The WLGA supports the amendment to the Measure which broadens the power and remit Committees. The Welsh Government has responded to feedback from local authorities following the establishment of Democratic Services Committees following the Measure; in summary, the interpretation of specific provisions in the Measure regarding the powers and functions of the Democratic Services Committee could, unintentionally, constrain the remit and ambition of a Committee. The Bill seeks to give greater local flexibility which is welcomed.

- Audit Committee

The WLGA supports the proposed amendments to ensure Audit Committees are politically balanced.

- Standards Committee.

The WLGA supports the power to establish joint standards committees. The WLGA would also echo ACSeS' proposal to include an additional power for an authority to refer a matter (subject to prior agreement of relevant parties) to another authority's standards committee where there might be a difficulty in the 'home' authority's standards committee dealing with a case.

**Independent Remuneration Panel for Wales**

| Question 7: Do you think the provisions relating to the Independent Remuneration Panel for Wales are appropriate? (Chapter 5, Sections 58-62) | | | |
|---|---|---|---|
| **Yes** | | | |

The WLGA supports most of the proposed changes to the Independent Remuneration for Wales (the Panel).

The WLGA understands and supports the proposed changes to timescales for publication and consultation around the Panel's reports; the WLGA welcomes the proposal to allow the back-dating of allowances, however, there is an issue around linking the Panel's reports into councils' financial planning arrangements which currently works well. Whilst minor adjustments to members' allowances can be accommodated by councils, a significant and fundamental overhaul by the Panel of the allowances framework could provide a financial challenge if councils have already set their budget in advance of the Panel's recommendations. In its response to the White Paper consultation, the WLGA suggested that legislation or Ministerial guidance could state that when the Panel undertakes a wholesale review of an existing allowances framework, that these determinations should be reported by 31st December, to allow authorities an opportunity to take into account any necessary financial implications within its budget setting process.

The WLGA does not support the proposed amendment to the Measure to allow the Panel to prescribe the numeric limitation on those entitled to senior salary payments. The established approach had hitherto worked well and allowed local discretion and flexibility set within an overall cap; whilst the WLGA supports the independence of the Panel and recognizes that their should be a cap on senior salaries, the proposed approach as outlined allows the Panel to constrain and effectively determine the governance arrangements for each local authority. Local authorities are best placed to decide on the most appropriate governance arrangements required to conduct local business effectively, this includes the appropriate constitutional structures as well as the number of members required to exercise executive, scrutiny and statutory functions accordingly. The WLGA would propose that the legislation is amended to the pre-2011 Measure position where no more than 50% of council members could receive a senior salary.

**Access to information (Town and Community Councils)**

| Question 8: Do you think the provisions relating to improving access to information (Town and Community Councils) are appropriate? | | | |
|---|---|---|---|
| **Yes** | | | |
| The WLGA supports these proposals, although would echo ACSeS' point regarding rewording this section of the Bill as 'Publicity for Information' rather than 'Access to Information' which has a much broader and specific application which would not necessarily be appropriate for community and town councils. | | | |

**Chairing of Principal Councils (Chairs and Mayors of Principal Councils)**

| Question 9: Do you think the provisions relating to the Chairing of Principal Councils (Chairs and Mayors of Principal Councils) are appropriate? | | | |
|---|---|---|---|
| **Yes** | | | |
| The WLGA supports this part of the Bill. ACSeS have highlighted an issue which will require further consideration and some redrafting, however, around terms of office of elected members and who should chair the first AGM following a council election prior to a new Chair being appointed. | | | |

**General Provisions of the Bill**

| Question 10: What are the potential barriers to implementing the provisions of the Bill (if any) and does the Bill take account of them? |
|---|
| Please expand on your answer<br><br>Other than the points of clarification outlined above, there are no specific barriers to implementing the provisions of the Bill other than the inherent complexity of some of the processes over which it seeks to legislate, notably the community and electoral review processes. However, the Bill seeks to better resource these arrangements and aims to clarify and improve current procedures. |

| Question 11: What are the financial implications of the Bill, if any? In answering this question you may wish to consider Part 2 of the Explanatory Memorandum (the Impact Assessment), which estimates the costs and benefits of implementation of the Bill. |
| --- |
| Please expand on your answer<br><br>The financial implications are covered in the Explanatory Memorandum. The only area of some uncertainty is around the new charges that could be levied by the Local Government Boundary Commission on authorities for undertaking a community area review. The costs for such reviews vary, and the Explanatory Memorandum estimates that this would cost between £8,000 to £15,000 and that it should not be in excess of the cost should the authority have undertaken a review itself. Most of the costs incurred undertaking a community review relate to local authority staff time; where an authority requests that the Commission undertakes a community review on its behalf or the Commission decides to undertake a review due to delays, it is likely to be due to internal capacity constraints within the authority in question. Any reviews undertaken by the Commission are therefore likely to be an additional cost to an authority. |

| Question 12: What are your views on powers in the Bill for Welsh Ministers to make subordinate legislation (i.e. statutory instruments including regulations and orders) (section 5 of the Explanatory Memorandum)? |
| --- |
| Please expand on your answer<br><br>The WLGA has no comments. |

| Question 13: Are there any other comments you wish to make about specific sections of the Bill? |
| --- |
| The WLGA has no comments at this stage. |

Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: **Ian Medlicott, Swyddog Polisi**

Sefydliad (os yw'n berthnasol**): Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau, Cangen Cymru ("ACSeS")**

Cyfeiriad e-bost: **ianmed@yahoo.co.uk**

**Rhagarweiniad:**

Mae Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau ("ACSeS") yn gorff proffesiynol ar gyfer rheolwyr llywodraethu corfforaethol (swyddogaethau cyfreithiol, gweinyddol, democratiaeth, craffu a safonau) a swyddogion monitro statudol a'u dirprwyon mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Gymdeithas yn chwarae rhan arweiniol mewn datblygu trefniadau llywodraethu mewn llywodraeth leol ac yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau eraill, adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth. Mae'r Gymdeithas yn darparu rhwydwaith i'w aelodau i ganiatau trafodaeth, ymgynghoriad, hyfforddiant a datblygiad ar faterion cyfreithiol a llywodraethu.

Mae Cangen Cymru o ACSeS yn cynrychioli Penaethiaid Gwasanaethau Cyfrieithiol a Swyddogion Monitro awdurdodau unedol, parciau cenedlaethol, tân ac achub, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru.

**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwestiwn 1: A oes angen Bil i wneud newidiadau i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") ac i wneud amrywiol ddarpariaethau mewn perthynas â llywodraeth leol? | | | |
| Oes | | Nac oes | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn | | | |

| Cwestiwn 2: A ydych o'r farn y bydd y Bil yn gwella'r dull o gyflawni rolau a swyddogaethau statudol y Comisiwn? (paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn | | | |

| Cwestiwn 3: A ydych o'r farn bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Comisiwn yn briodol? (Rhan 2 y Bil) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn | | | |

**Trefniadau Llywodraeth Leol**

| Cwestiwn 4: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol yn briodol? (Pennod 4 a 5) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn | | | |

| Cwestiwn 5: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:<br>• Dyletswyddau'r Comisiwn<br>• Dyletswyddau prif gynghorau<br>yn briodol? (Pennod 1) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn | | | |

| Cwestiwn 6: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:<br>• Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd (Adran 56)<br>• Pwyllgorau Archwilio (Adran 57)<br>• Pwyllgorau Safonau (Adran 63)<br>yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>(a) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.<br>Teimla ACSeS fod rhoi awdurdod statudol i ymestyn y cylch gorchwyl statudol yn addas. Fodd bynnag, bydd angen diwygio adran 16 o Fesur Llywodraeth Leol i adlewyrchu’r pwerau estynedig.<br><br>(b) Pwyllgor Archwilio<br>Mae ACSeS wedi cefnogi hyn yn gryf ers gweithredu’r Mesur<br><br>(c) Pwyllgor Safonau<br>Mae ACSeS yn cefnogi’r pwer i sefydlu cyd-bwyllgorau safonau. Byddai hefyd yn croesawu pwer clir *ychwanegol* i awdurdod gyfeirio mater i bwyllgor safonau awdurdod arall mewn achosion lle cyfyd anhawster i’r pwyllgor safonau “cartref” ymdrin â’r achos | | | |

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

| Cwestiwn 7: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn briodol? (Pennod 5, Adrannau 58-62) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cymal 60:
Mae'r newidadau i'r dyddiadau a gynigir yn y cymal hwn fel petaent yn defnyddio Mai (Cyfarfodydd Blynyddol) fel y dyddiad allweddol i awdurdodau lleol er mwyn cyfiawnhau y dyddiadau a gynigir ar gyfer cyhoeddi a gweithredu. Mae hyn yn dybiaeth anghywir, gan mai'r cyfnod allweddol i awdurdodau lleol ydi cyfnod paratoi'r gyllideb (dechrau Rhagfyr) a phenderfynu ar y dreth gyngor a'r gyllideb (Chwefror/Mawrth). Mae gan ACSeS dri sylw:

1. Byddai newid dyddiad yr Adroddiad i 28 Chwefror yn ei gadael yn rhy hwyr i awdurdodau gyllido'n gyfrifol ar gyfer unrhyw benderfyniadau diwygiedig yn yr Adroddiad
2. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae gan awdurdodau lai o hyblygrwydd mewn cyllidebau, felly fe all cyfnod ôl-ddyddio o dri mis arwain at anawsterau ariannol wrth weithredu newidiadau
3. Efallai fod yna gyfiawnhad dros newidiadau hwyr neu ganol-blwyddyn i awdurdod unigol, neu mewn amgylchiadau sy'n galw am adroddiad atodol. Yn yr achosion hyn, bydd cynghorau fel arfer wedi rhagweld y newidiadau, ac wedi cael cyfle i gyllido ar eu cyfer

**Mynediad at wybodaeth (Cynghorau Tref a Chymuned)**

| Cwestiwn 8: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â hwyluso mynediad at wybodaeth (Cynghorau Tref a Chymuned) yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |

Ymhelaethwch ar eich ateb

Adrannau 53 -55:
Yr unig ddadl ydi gyda'r pennawd i'r adrannau hyn. Mae gan y term "Mynediad at Wybodaeth" ("*Access to Information*") ddiffiniad yn barod o fewn llywodraeth leol (Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972) ac os y'i defnyddir mewn perthynas â chynghorau cymuned fe allai greu disgwyliad ymysg y cyhoedd o hawliau cyfartal i fynediad at ddogfennau; hawliau sy'n bodoli mewn perthynas â phrif gynghorau ond **nid** mewn perthynas â chynghorau cymuned.

Byddai newid y pennawd i "cyhoeddusrwydd i wybodaeth" yn datrys hyn. Mae angen newid tebyg yn y Nodiadau Esboniadol.

**Cadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau)**

| Cwestiwn 9: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Chadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau) yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |

Ymhelaethwch ar eich ateb

Cymal 51
Mae'r Bil yn cynnwys pwer yng nghymal 51 i wahanu'r rolau "cadeirio cyfarfodydd" a "dinesig", trwy greu "aelod llywyddol". Mae'r pennaeth dinesig wedyn naill ai yn "faer" (os oes hawl i ddefnyddio'r term) neu fel arall yn "gadeirydd dinesig"

Mae pryder ACSeS ynglyn â thymor mewn swydd aelodau etholedig.

1. Dywed adran 26 Deddf Llywodraeth Leol 1972 bod tymor cynghorwyr yn dod i ben ar y pedwerydd ddiwrnod ar ôl etholiadau cyffredin.
2. Dywed adran 22(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fod Cadeirydd cyngor yn parhau mewn swydd hyd nes y penodir ei olynydd. Tybiwyd bob amser fod hyn er mwyn sicrhau fod yna Gadeirydd i ddechrau cyfarfod blynyddol cyngor yn gyfreithiol wedi etholiadau. Mae hefyd yn cynnal pennaeth dinesig neu seremoniol, os oes angen un, yn y cyfamser. Hyd yma roedd y gwahaniaeth yn amherthnasol ac ni fu angen cyfarch y pwynt
3. O ganlyniad i'r cymal yma, nid oes bellach "gadeirydd" at ddibenion adran 22(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Nid yw'r Bil Democratiaeth yn cyfarch pwy sy'n cymhwyso ar gyfer yr eithriad adran 22(3) – ai'r "aelod llywyddol" dan gymal 51 ynteu'r maer/gadeirydd dinesig dan gymal 51 – nid yw'r naill na'r llall yn ffitio'r diffiniad o "gadeirydd" yn adran 22(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigia ACSeS mai'r hyn sydd ei angen yw newid drafftio syml yn y Bil i ddiwygio adran 22(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ond mae cwestiwn ynglyn â pha un o'r ddau ddylai gael budd y tymor estynedig – ynteu'r ddau ohonynt?

Fe all cynghorau fod angen pennaeth cyfansoddiadol **neu** bennaeth seremoniol yn y cyfnod rhwng etholiadau a chyfarfodydd blynyddol; byddant yn sicr angen pennaeth cyfansoddiadol ar gyfer y cyfarfod blynyddol, yn arbennig os na wnaeth y Cadeirydd sy'n ymadael (dan y gyfraith bresennol) sefyll etholiad neu na chafodd ei ethol.

Gan gymryd y diffiniad o'r tymor mewn swydd a geir yn yr adran 24A (6)(b) newydd yng nghymal 51, mae angen beth bynnag ymestyn tymor yr aelod llywyddol, ond mae yna ddadl y dylai tymor y maer/cadeirydd dinesig gael ei ymestyn hefyd at ddibenion seremoniol.

**Darpariaethau Cyffredinol y Bil**

| |
|---|
| Cwestiwn 10: Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt? |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Mae'r pryderon hyn wedi eu trafod mewn mannau eraill yn y ddogfen hon. |

| |
|---|
| Cwestiwn 11: Beth yw goblygiadau ariannol y Bil, os ydynt yn bodoli? Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith) sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith. |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Gweler y sylwadau ar Gwestiwn 7 mewn perthynas â chymal 60 o'r Bil |

| |
|---|
| Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion) (adran 5 y Memorandwm Esboniadol)? |
| Ymhelaethwch ar eich ateb<br><br>Nid oes gan ACSeS sylwadau ar y pwynt hwn |

| Cwestiwn 13: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil? |
|---|

**1. Cymal 66(1) Dehongli**
Er eglurder, dylid ychwanegu'r geiriau "…yng Nghymru" at y diffiniad o "awdurdod lleol"

**2. Tymor mewn swydd aelodau o bwyllgorau safonau sy'n gynghorwyr:**

Teimla ACSeS y byddai o gymorth i weinyddiaeth effeithlon pwyllgorau safonau pe bai tymor penodiad aelodau o'r pwyllgorau safonau sy'n gynghorwyr yn cyd-redeg gyda thymor mewn swydd am y tro y cynghorydd hwnnw, yn hytrach nag am bedair blynedd, ac y dylid gweithredu'r rheol hon ar gyfer deiliaid presennol.

Byddai hyn yn cyfarch y sefyllfa lle mae dyddiad etholiadau cyffredin prif gyngor wedi ei ohirio am flwyddyn, fel sydd wedi digwydd yn bresennol.

**3. Mynychu o bell, adran 4 Mesur Llywodraeth Leol 2011:**

Mynegodd ACSeS bryderon pan gafodd y Mesur ei graffu ynglyn â'r goblygiadau cyfreithiol o golli cysylltiad yn ystod cyfarfod cyngor gydag un neu ragor o gynghorwyr oedd yn mynychu o bell. Ni chafodd y materion hyn eu cyfarch yn y Mesur, ac mae ACSeS yn bryderus iawn y dylid cyfarch y canlyniadau cyfreithiol (ac o bosib cyllidol difrifol).

Ni ellir cyfarch y materion hyn yn ddigonol trwy Reolau Sefydlog awdurdod, a rhaid eu cyfarch mewn statud.

Mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle delfrydol i ddiwygio'r Mesur i gyfarch y materion hyn, ac anogir aelodau'r Cynulliad yn gryf i gymryd y cyfle hwn i ddeddfu er mwyn osgoi'r canlyniadau.

Dyma'r materion i'w cyfarch:

i) Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur yn ymdrin â dilysrwydd (neu beidio) penderfyniad a gymerwyd mewn cyfarfod lle y collir cyswllt gydag aelod neu aelodau sy'n mynychu o bell. Dylai'r ddeddfwriaeth ddatgan a ellir cymryd penderfyniad yn "absenoldeb electroneg" aelod neu aelodau, ac os y caniateir hynny, yna dylid eithrio hawl aelod sydd wedi ei ddifreinio i gwyno neu herio

ii) Byddai'n well gan ACSeS ddarpariaeth statudol sy'n caniatau i'r cyngor barhau i gymryd penderfyniad, gyda'r aelod sy'n mynychu o bell yn cael ei drin fel bod yn absennol o'r cyfarfod. Mae ACSeS o'r farn hon oherwydd y canlyniadau difrifol posib i awdurdod o:
   (a) fethu â chymryd penderfyniad lle mae amser yn gritigol (e.e. penderfyniad ar y dreth gyngor neu benderfyniad yn effeithio ar ymgyfreithiad); neu
   (b) benderfyniad annilys posib gan bwyllgor rheoleiddio (cynllunio neu drwyddedu)

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 9 Ionawr 2013** |
| Amser: | **09:00 - 11:26** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Joyce Watson**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Peter Black AC** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Finlayson (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas a Ken Skates.

1.2 Gan mai Peter Black oedd yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru), roedd Kirsty Williams yn dirprwyo ar ei ran yn ystod yr eitemau lle y trafodwyd y Bil hwnnw.

## 2. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru): sesiwn dystiolaeth 1 (Cyfnod 1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth bellach am y Bil i'r Pwyllgor.

## 3. Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 9

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Peter Black AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru).

3.2 Cam i'w gymryd: Cytunodd Peter Black AC i anfon safbwynt cyfreithiol pendant erbyn 16 Ionawr o ran a fydd y Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn codi materion o dan Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn ar Hawliau Dynol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 5. Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): ystyried y prif faterion

5.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion a phwysleisiodd y meysydd yr hoffai wneud argymhellion mewn perthynas â hwy.

## 6. Papur yn amlinellu'r dewisiadau o ran craffu ar y Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru)

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i gael cyflwyniad ffeithiol am y Papur Gwyn ar 6 Chwefror.

## 7. Papurau i'w nodi

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/JH/3540/12

Ann Jones AC
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities.Equality&LocalGov@wales.gov.uk

3 Ionawr 2013

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Ystyriaethau Cydraddoldeb yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd ynglŷn ag Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Ystyriaethau Cydraddoldeb yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru, ac argymhellion y Pwyllgor.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau a wneir gennym ynghylch y gyllideb ac ariannu. Fel y nodwch yn eich llythyr, mae hwn yn faes sy'n datblygu ac yn gwella gennym bob blwyddyn, a chredaf fod ein llwyddiant a'r cynnydd rydym wedi'i wneud hyd yn hyn yn dangos ymrwymiad sylweddol Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r ymrwymiad hwn, ceir addewid i barhau i gryfhau a datblygu ein harbenigedd ym maes cydraddoldeb a gwella'r ffordd rydym yn asesu effeithiau'r penderfyniadau sy'n sail i'n cyllideb ar gydraddoldeb. Rwyf felly'n croesawu eich Ymchwiliad a'r argymhellion a gyflwynwyd gennych. Fel y gwyddoch, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru hefyd wedi cynnal Ymchwiliad Gwerthfawrogol i'n hasesiad o ystyriaethau cydraddoldeb wrth bennu'r gyllideb. Fe'i cyhoeddwyd ar 27 Tachwedd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda mi ar yr argymhellion hyn, ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Efallai y bydd o gymorth os amlinellaf ble'r ydym arni a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Roedd un o'ch argymhellion yn awgrymu bod angen inni gyhoeddi Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb, ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Cyhoeddwyd Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2013-14 ar Gydraddoldeb â'r Gyllideb Ddrafft ar 8 Hydref. Cyhoeddwyd yr asesiad fel dogfen annibynnol, ar wahân, fodd bynnag, i ddangos ein hymrwymiad i fod yn dryloyw wrth ystyried cydraddoldeb. Dilynwyd hyn gan ddiweddariad o'r newidiadau a wnaed yn y Gyllideb derfynol i'r ystyriaethau a'r penderfyniadau gwario cychwynnol hynny. Mae hyn yn dangos mai proses barhaus yw cynnal ein hasesiadau, sy'n datblygu drwy gydol oes y penderfyniad gwario.

Fel y crybwyllwyd gennych, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori Cyllidebol ar Gydraddoldeb, a fydd yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd. Bydd y fforwm cynghori hwn yn gwneud cyfraniad allweddol at barhau i wella Asesiad Llywodraeth Cymru o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei adolygiad.

Yn gywir,

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House